# Manylion ac amodau a thelerau'r gystadleuaeth

| | |
|---|---|
| **Teitl y Gystadleuaeth** | Arolygon Myfyrwyr Israddedig ac Arolygon Myfyrwyr Ôl-raddedig |
| **Sut i fod yn rhan o'r gystadleuaeth** | Cwblhewch yr arolwg, a nodwch a ydych am gael eich cynnwys yn y gystadleuaeth i ennill gwobr drwy nodi eich enw llawn, cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn cyswllt gorau i chi.<br><br>Mae'r gystadleuaeth yn gyfyngedig i'r rhai sydd - yn ystod cyfnod y gystadleuaeth - yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg gan Brifysgol Abertawe (”y Brifysgol").<br><br>Caiff pob person roi un (1) cynnig yn unig. |
| **Gwobr(au)** | Tynnu enwau ar hap:<br>1. Byddwn yn llunio rhestr o gynigion unigryw a dilys gan gyfranogwyr a ddarparodd eu manylion cyswllt yn gywir ac a fynegodd ddymuniad i fod yn rhan o'r gystadleuaeth.<br>2. Dynodir gwerth rhifiadol a gynhyrchir ar hap yn MS Excel© neu raglen debyg i bob cynnig ar y rhestr.<br>3. Yna caiff y cynigion eu trefnu ar sail y gwerth rhifiadol a ddynodir iddynt ar hap.<br><br>Dewis enillydd:<br>Y ddau (2) gais cyntaf ar y rhestr fydd yn fuddugol.<br>Bydd pob enillydd yn ennill un (1) x daleb £50 Love2Shop neu daleb Amazon<br><br>Caiff y talebau eu hanfon i gyfrifon e-byst yr enillwyr a nodir ar yr arolwg. |
| **Cyfnod y Gystadleuaeth** | Mae'r gystadleuaeth yn dechrau ar Medi 2023 ac yn cau ar Medi 2024. Gall y dyddiadau hyn newid heb rybudd. |
| **Dyddiad dyfarnu** | O fewn deng (10) niwrnod gwaith i ddyddiad cau'r gystadleuaeth. |
| **Hysbysu'r enillwyr** | Caiff yr enillwyr eu hysbysu drwy e-bost ar ddyddiad y beirniadu. |
| **Hawlio'r wobr** | Rhaid i enillwyr hawlio eu gwobr o fewn pythefnos ar ôl cael eu hysbysu eu bod wedi ennill. Os na fydd enillydd yn hawlio ei wobr erbyn 5pm o fewn y terfyn amser hwn, bydd yr enillydd yn fforffedu ei wobr a bydd yr enillydd nesaf a ddewisir ar hap nad yw eisoes wedi'i ddatgan yn enillydd yn derbyn y wobr. |